# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 20.06.08

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Ieuan Roberts (Cadeirydd); Louise Hughes a W. Gareth Roberts
**Hefyd yn bresennol:** Gareth W Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**
**Ymgeisydd:** Mr Mark Durston (Rheolwr yr Ŵyl Wakestock); Ms Kelly Roberts (cyd-drefnydd yr Ŵyl)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd W. Penri Jones (Aelod Lleol) a'r Cynghorydd Gwilym Williams

## 1. CAIS AM WYRO TRWYDDED GWYL WAKESTOCK, PENRHOS, PWLLHELI

Ar ddechrau'r cyfarfod eglurodd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol bod un aelod o'r Is-bwyllgor heb gyrraedd, a gofynnwyd i'r ymgeisydd os y byddai'n fodlon i'r cais gael ei ystyried gyda dau aelod yn unig yn bresennol. Cytunodd yr ymgeisydd, ond fe gyrhaeddodd yr aelod (gan ymddiheuro am fethu cyrraedd mewn pryd) ychydig wedi cychwyn y cyfarfod ac felly yr oedd Is-bwyllgor llawn yn bresennol i drafod y mater.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais Mr Mark Durston, trefnydd Gwyl Wakestock, i wyro'r drwydded bresennol i gynnwys diwrnod ychwanegol o weithgareddau ar Ddydd Iau yn ogystal â diwygio mân anghysondebau yn y drwydded wreiddiol ynglŷn ag amseroedd. Eglurodd bod y drwydded wreiddiol yn nodi yr un amser gorffen cyflenwi alcohol a chau i'r cyhoedd ac nad oedd hyn yn ymarferol bosibl.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ymhelaethu ar ei gais.

Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd.

Cafodd cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Wrth ymhelaethu ar ei gais, nododd yr ymgeisydd mai cyfle i weini ar y rhai sy'n cyrraedd cyn dechrau'r Ŵyl yw prif bwrpas y cais, ac nad oes bwriad i ymestyn yr Ŵyl yn llawn i ddiwrnod ychwanegol. Hefyd byddai'r ychwaegiad i'r drwydded yn fodd i gadw'r gwersyllwyr rhag crwydro i'r pentrefi cyfagos i chwilio am fwyd a diod, ac hefyd yn fodd i fwydo'r gweithwyr ar y safle wedi i'r gweithgareddau ddod i ben am y nos.

Wrth ymateb i gwestiynau gan aelodau, nododd yr ymgeisydd:
- ei fod yn rhagweld y byddai'r ddarpariaeth bwyd a diod yn gorffen am 03.30, ond bod y cais tan 05.00 i osgoi gwneud cais pellach pe byddai angen.
- Mae trefniadau'r Ŵyl yn cydymffurfio â chanllawiau lefel sŵn yr Adran Iechyd yr Amgylchedd.
- Mae trefniadau'r Ŵyl yn cydymffurfio ag amodau a gytunwyd gyda Grŵp Diogelwch Ymgynghorol Gwynedd.

- Mae staff cofrestredig ar y giât yn gofalu rhag caniatáu mynediad i rai dan 16 mlwydd oed, trwy fynnu gweld cerdyn adnabod i rai sydd ag amheuaeth o fod dan yr oedran hwn.

Wrth drafod y cais, rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r pedwar egwyddor o fewn y Ddeddf, sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

a chyflwynwyd y sylwadau canlynol:-

- Mynegwyd pryder gan aelodau ynghylch ymestyn y drwydded i ddiwrnod ychwanegol ac o ganlyniad efallai ymestyn yr holl weithgaredd, gyda mynychwyr yn cyrraedd ar y Dydd Mercher.
- Croesawyd y wybodaeth bod yr Heddlu ar ddyletswydd trwy gydol yr Ŵyl.
- Trafodwyd y posibilrwydd o gwtogi ar oriau gwerthu alcohol, ond cadarnhawyd na fyddai'n bosibl cwtogi ar y drwydded wreiddiol ond trwy gytundeb â deilydd y drwydded, sef yr ymgeisydd.
- Mynegodd un aelod ei anfodlonrwydd i gytuno i'r cais gan fod yr Ŵyl eisoes wedi llwyddo i'w hymestyn i ddiwrnod ychwanegol i'r trefniant gwreiddiol
- Awgrymwyd caniatau gwerthu alcohol a bwyd, ond i beidio â chaniatau chwarae cerddoriaeth, gan mai hynny yn bennaf sy'n achosi niwsans cyhoeddus i drigolion sy'n byw o fewn cylch eang o leoliad yr Ŵyl

**PENDERFYNWYD caniatau cais i wyro trwydded Gŵyl Wakestock gyda'r amodau canlynol:-**

a) **Caniatau dramau, ffilmiau, cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, perfformiadau dawns a chyfleusterau ar gyfer dawnsio (sef categoriau A, B, E, F, G a J yn y cais) Dydd Gwener a Dydd Sadwrn o 13.00 hyd at 01.00; Dydd Sul o 13.00 hyd at 23.30;**
b) **Cyflenwi bwyd poeth Dydd Iau – Dydd Sul o 23.00 hyd at 03.30**
c) **Gwerthu alcohol Dydd Iau o 13.00 hyd at 00.00; Dydd Gwener a Dydd Sadwrn o 11.00 hyd at 01.30; Dydd Sul o 11.00 hyd at 00.00**
d) **Oriau agor i'r cyhoedd Dydd Iau o 08.00 hyd at 01.00; Dydd Gwener a Dydd Sadwrn o 11.00 hyd at 02.30; Dydd Sul o 11.00 hyd at 01.00**

**Penderfynwyd gwrthod cais i ychwanegu gweithgareddau ar Ddydd Iau dan baragraffau A,B,E,F,G a J.**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol y byddai llythyr yn cael ei ddosbarthu yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor, a'r hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn tair wythnos i ddyddiad y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.05